Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

V355/5W

# Canllaw i lenwi'r ffurflen 'Cais am dreth cerbyd cyntaf a chofrestru cerbyd modur ail-law' (ffurflen V55/5W)

Dylech ddefnyddio'r ffurflen V55/5W i gofrestru cerbyd modur ail-law (er enghraifft, cerbydau wedi'u mewnforio sydd wedi eu cofrestru o'r blaen, ceir wedi'u hail adeiladu ac yn y blaen).

Gall sawl math o gerbyd gael ei gofrestru gyda'r ffurflen hon, felly byddai'n anodd darparu canllawiau sy'n cynnwys pob amgylchiadau. Mae'r canllaw hwn yn trafod y mathau cyffredin o gerbydau.

Nodwch na all DVLA gofrestru a threthu unrhyw gerbydau a fewnforiwyd sydd wedi'u dosbarthu fel wedi'u difrodi'n ddifrifol. Cyn ichi fewnforio cerbyd i'r DU, rhaid ichi sicrhau nad yw wedi cael ei ddosbarthu fel wedi'i ddifrodi'n ddifrifol mewn gwlad arall. Rhaid ichi wirio hyn gyda'r awdurdod cofrestru tramor. Os oes unrhyw arwydd bod y cerbyd wedi cael ei ddifrodi, rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o'r awdurdod cofrestru tramor sy'n cadarnhau nad yw'r cerbyd wedi cael ei ddifrodi'n ddifrifol cyn y gellir cofrestru'r cerbyd i'w ddefnyddio ar ffyrdd y DU.

Mae 'wedi'i ddifrodi'n ddifrifol' yn golygu cyfwerth â cherbydau anadferadwy Categori A a Chategori B y DU (**www.gov.uk/cerbydau-sydd-wediu-sgrapio-au-diddymu/cerbydau-sydd-wediu-diddymu-gan-gwmni-yswiriant**). Gall cerbyd sydd wedi'i ddifrodi'n ddifrifol ac sy'n cael ei werthu dramor gael, er enghraifft, tystysgrif gofrestru neu dystysgrif teitl gyda'r disgrifiad 'cerbyd wedi'i ddiddymu statudol' ('statutory write-off'), 'wedi'i sgrapio' neu 'anadferadwy'.

Os na ellir cofrestru cerbyd oherwydd ei fod wedi'i ddifrodi'n ddifrifol, ni ellir dal DVLA yn atebol am unrhyw ffioedd neu gostau a ysgwyddir.

## Cerbydau wedi'u mewnforio – ydych chi wedi hysbysu Cyllid a Thollau EF (CThEF)?

Cyn ichi allu cofrestru eich cerbyd, yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol ichi hysbysu am fanylion unrhyw gerbyd a fydd yn cael ei fewnforio yn barhaol i'r DU.

Mae'n rhaid ichi hysbysu CThEF o fewn 14 diwrnod wedi dod â'r cerbyd i'r DU. Y ffordd gyflymaf o wneud hwn yw drwy'r gwasanaeth ar-lein ond mae ffurflen bapur ar gael ar gyfer unrhyw un nad yw'n gallu defnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Bydd CThEF yn cyfrif unrhyw TAW sy'n ddyledus a'ch hysbysu o unrhyw dâl sydd angen. Unwaith ichi gwblhau eich proses hysbysu yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan CThEF (naill ai ar-lein neu drwy'r post) o'ch hawl i gofrestru a threthu eich cerbyd.

Am ragor o gyngor ynglŷn â mewnforio cerbyd, ewch i **www.gov.uk/importing-vehicles-into-the-uk**

Bydd y manylion a ddarperwch ar y ffurflen V55/5W yn cael eu rhoi ar gofnodion DVLA, felly sicrhewch fod y wybodaeth a ddarperwch yn gywir. Ysgrifennwch yn glir mewn inc du gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU. Os bydd eich ffurflen yn anodd inni ei deall, bydd yn cymryd yn hirach nag arfer inni gyhoeddi'r dystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log).

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

**Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau nad ydynt wedi cael eu llofnodi neu eu llenwi yn iawn.**

Ar gyfer cerbydau cymeradwyaeth math M1, M1G a M1SP wedi'u cofrestru ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, bydd rhaid ichi ddarparu pris sylfaenol neu bris tybiannol y cerbyd neu bydd eich cais yn cael ei wrthod.

At ddibenion cofrestru DVLA, mae angen cymeradwyaeth math yn dechrau gydag 'e', 'p', 'g' neu 'n' ar geisiadau i gofrestru cerbyd am y tro cyntaf ym Mhrydain Fawr **ar hyn o bryd.** Er mwyn i gerbyd gael ei gofrestru i geidwad yng Ngogledd Iwerddon, mae'r uchod, **ac eithrio 'g'**, yn dderbyniol. Mae hyn yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae cynlluniau cymeradwyaeth math unigol cenedlaethol yn parhau i fod yn ddilys yn y ddwy diriogaeth.

## Cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad

Anfonwch lungopi o'ch trwydded yrru cerdyn-llun y DU gyda'ch ffurflen gais i brofi eich hunaniaeth (yr unig eithriadau yw ceisiadau a wnaed gyda 'Cais i gofrestru cerbyd o dan ei rif cofrestru gwreiddiol (V765)').

Os na allwch wneud hyn, bydd rhaid ichi anfon llungopïau o un ddogfen sy'n profi eich enw a dogfen arall sy'n profi eich cyfeiriad.

**Y dogfennau rydym yn eu derbyn i gadarnhau eich enw yw eich:**

- pasbort
- tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- dogfen ysgariad neu ddiwedd partneriaeth sifil (archddyfarniad amodol, archddyfarniad absoliwt, gorchymyn amodol neu orchymyn terfynol)
- eich tystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu
- tystysgrif adnabod rhywedd
- trwydded yrru bapur Prydain Fawr bresennol (nid y gwrthddalen bapur)

**Y dogfennau rydym yn eu derbyn i gadarnhau eich cyfeiriad yw:**

- bil nwy, trydan, dŵr neu ffôn cartref a gyhoeddwyd yn y 3 mis diwethaf
- eich bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol
- datganiad banc neu gymdeithas adeiladu a gyhoeddwyd yn y 3 mis diwethaf
- cerdyn/llythyr meddygol

## Ceisiadau gan fusnesau a chwmnïau (gan gynnwys gweithredwyr fflyd)

Mae'n rhaid ichi ddarparu llungopi o 2 ddogfen o'r rhestr isod. Mae'n rhaid i un ohonynt ddangos eich cyfeiriad busnes presennol.

- eich tystysgrif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau (boglynnog)
- eich tystysgrif cofrestru TAW
- bil nwy, trydan, dŵr neu ffôn cartref a anfonwyd i'ch busnes yn y 3 mis diwethaf
- bil Ardrethu Annomestig Cenedlaethol neu bil ardrethi Gogledd Iwerddon
- datganiad banc neu gymdeithas adeiladu ar gyfer eich busnes, a gyhoeddwyd yn y 3 mis diwethaf
- tystysgrif yswiriant cwmni
- llythyr gan Gyllid a Thollau EF yn dangos manylion eich cwmni a'ch cyfeirnod treth
- datganiad morgais cwmni
- cytundeb les eiddo
- llythyr cyfreithiwr am brynu'r eiddo o ble rydych yn rhedeg eich busnes
- trwydded credyd defnyddwyr

**Os nad ydych yn darparu'r dogfennau a ofynnir amdanynt uchod, ni fyddwn yn derbyn eich cais.**

## Sut i lenwi'r ffurflen V55/5W

Mae gan y ffurflen adrannau wedi'u rhifo sy'n gofyn am wybodaeth benodol. Mae'r tabl isod yn ganllaw i'ch helpu chi i ddeall pa wybodaeth y bydd angen ichi ei darparu ac o ble y cewch chi'r wybodaeth honno.

**Ar gyfer cerbydau sy'n cael eu mewnforio, mae'n rhaid ichi wneud y canlynol:**

- defnyddio'r blwch llaw-dde uchaf ar y ffurflen V55/5W i ddweud wrthym o ba wlad y prynoch chi'r cerbyd
- ticio'r blwch sy'n dweud wrthym os yw'r cerbyd yn un llawchwith neu'n un llawdde
- amgáu dogfen gofrestru neu dystysgrif o du allan y DU wreiddiol am eich cerbyd (ni fydd y ddogfen neu'r dystysgrif hon yn cael ei dychwelyd atoch), ac unrhyw bapurau eraill sy'n berthnasol i'r cerbyd
- anfon llythyr o eglurhad os nad oes dogfen gofrestru neu dystysgrif o du allan y DU wreiddiol ar gael, ynghyd â thystysgrif dyddio wrth y gwneuthurwr neu ffynhonnell dderbyniol arall

**Mae angen ichi lenwi'r adrannau canlynol ar dudalen 1 y ffurflen V55/5W.**

| | |
|---|---|
| **1 Rhif cofrestru** | Gadewch y blwch hwn yn wag. Bydd DVLA yn llenwi hwn. |
| **2 Dosbarth treth** | Er enghraifft, car petrol, car diesel. Am ragor o gyngor, cyfeiriwch at y V355/1W 'Nodiadau ynghylch dosbarthiadau treth'. |
| **3 Cyfnod y dreth ymgeisir amdano** | Nodwch am ba gyfnod rydych chi eisiau trethu'r cerbyd – 6 mis neu 12 mis. |
| **4 Ffi cofrestru Treth daladwy** | Mae'n rhaid ichi dalu'r ffi cofrestru cyntaf oni bai bod y cerbyd wedi'i restru yn Atodiad A: Taflen 'Ffi cofrestru cerbyd am y tro cyntaf' (INF54/1W). |
| **5 Gwneuthurwr** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neur dystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| **6 Gwneuthuriad** | Er enghraifft, Ford, Vauxhall, Peugeot ac yn y blaen. |
| **7 Model (gan gynnwys manylion llawn y cerbyd)** | Er enghraifft, Fiesta Azura Auto, Corsa GLS 12V, 406 GLDT ac yn y blaen. |
| **8 Math corff/cerbyd** | Er enghraifft, salŵn 2-ddrws, car stad, cefn codi 3-drws neu 5-drws, car cyflym, car codi to, coupé, beic modur, beic tair olwyn, moped, lori â gwaelod fflat ac yn y blaen. |
| **9 Cynllun yr olwynion** | Er enghraifft, '2-AXLE RIGID' ar gyfer ceir safonol, '2 OLWYN' ar gyfer beiciau modur, ac yn y blaen. |
| **10 Lliw** | Mae'n bosib na fydd y lliw yn ddisgrifiad llawn y gwneuthurwr gan ein bod yn defnyddio disgrifiadau lliwiau safonol yn unig (er enghraifft, os yw'r cerbyd yn lliw lafant, byddai porffor yn cael ei ddangos ar y dystysgrif gofrestru).<br><br>Noder: os oes gan y cerbyd 2 liw, dylai'r 2 ddisgrifiad gael eu cofnodi ar y ffurflen V55W, er enghraifft 'du a gwyn'. Am gerbyd gyda 3 lliw neu fwy, rhowch 'amryliw'. |
| **11 Manylion rhif cymeradwyaeth math/categori** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Os nad oes angen i'r cerbyd ddarparu tystiolaeth o gymeradwyaeth math cerbyd oherwydd sut mae wedi'i adeiladu, gadewch yr adran hon yn wag ac atebwch gwestiwn 72 ar dudalen 2. Os ydych yn darparu Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol (tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr) neu dystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Beic Modur Unigol (MSVA), bydd DVLA yn cofnodi'r wybodaeth yn y blychau 'Defnydd Swyddogol yn unig' ar y ffurflen. |
| **12 Math** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu'r dystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| **13 Amrywiad** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **14 Fersiwn** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **15 Hyd y cerbyd (mm)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, rhaid ichi roi'r wybodaeth yma. |
| **16 Lefel sain sefydlog (dB(A))** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, mae'n rhaid ichi roi'r wybodaeth yma. |
| **17 Nifer o seddau (gan gynnwys y gyrrwr)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu gallwch gyfrif nifer y seddi yn y cerbyd. |
| **18 Pŵer net uchaf (cW)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio, dim lleoedd degol, crynhewch i'r rhif crwn agosaf (nid oes angen ichi roi'r wybodaeth hon am gerbyd amaethyddol). |
| **19 Màs tynnu technegol a ganiateir ar gyfer tynnu'r ôl gerbyd (a&b)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| 20 Lled y cerbyd (mm) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| 21 Pwysau heb eu llwytho (cg) | Nid oes angen ichi roi'r pwysau os yw eich cerbyd yn pwyso llai na 3500cg (er enghraifft, os yw'n car teithwyr), oni bai bod y cerbyd yn feic tair olwyn. |
| 22 Nifer o lefydd sefyll | Mae hyn yn gymwys i fysiau yn unig. Cewch chi'r wybodaeth hon o'r gwneuthurwr cerbyd. |
| 23 Màs uchaf a ganiateir | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (nid oes rhaid ichi roi'r wybodaeth hon am feiciau modur neu feiciau tair olwyn). |
| 24 Dyddiad cofrestru gwreiddiol | Rhowch y flwyddyn a gofrestrwyd y cerbyd am y tro cyntaf (ni waeth ym mha wlad yr oedd hwn). |
| 25 Blwyddyn cynhyrchu | Rhowch y flwyddyn yr adeiladwyd y cerbyd (er enghraifft, 2001). |
| 26 Dyddiad cofrestru yn y DU | Rhowch y flwyddyn a gofrestrwyd y cerbyd am y tro cyntaf yn y DU (ni waeth ym mha wlad y gwnaed y cerbyd ynddi) |
| 27 Lled trac | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu'r dystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| 28 Statws Euro | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Fel rheol, dengys hwn fel lefel allyriadau pibell wacáu (er enghraifft Euro 6). Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| 29 Rhif cyfeiriol statws Euro | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Fel rheol, dengys hwn gydag allyriadau pibell wacáu (er enghraifft 1999/102A/EC, 98/69/EC). Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| 30 Dyddiad y bydd y dreth cerbyd yn dechrau | Fel arfer, bydd hwn yn ddyddiad heddiw neu'n ddiwrnod cyntaf y mis nesaf. |
| 31 Math o danwydd | Er enghraifft 'Petrol', 'Diesel', 'Trydan', ac yn y blaen. |
| 32 Rhif Adnabod Cerbyd (VIN)/ siasi/ffrâm | Rhowch y Rhif Adnabod Cerbyd (VIN) llawn, y rhif siasi neu rif ffrâm, sydd wedi'i stampio yn y car. |
| 33 Rhif yr injan | Rhowch y rhif injan llawn, y dylech ei gael o'r cerbyd. |
| 34 Maint y silindr (cc) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu gallwch ei chael wrth y gwneuthurwr cerbyd. |
| 35 Hyd rhwng olwynion (mm) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu'r dystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| 36 $CO_2$ (g/cm) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (y ffigwr gyfunol). Y ffigwr hon fydd y gwerth NEDC neu'r cyfwerth. Ar gyfer cerbydau trwm, dylai hyn fod y gwerth $CO_2$ penodol a gofnodwyd ar y Dystysgrif Cydymffurfio. |
| 37 Allyriadau $CO_2$ penodol (WLTP) (g/cm) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu'r dystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. |
| 38 Màs mewn gwasanaeth (cg) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu gallwch ei chael wrth y gwneuthurwr cerbyd. |
| 39 Gronynnau (pm) (g/cm neu g/cWh) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| 40 CO (g/cm neu g/cWh) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| 41 Pwysau'r ôl-gerbyd (cg) | Mae'n rhaid ichi lenwi'r adran hon os oes gennych gerbyd anhyblyg yn pwyso 12,000cg a throsodd, yn tynnu ôl-gerbyd llwythog sy'n pwyso dros 4,000cg. |
| 42 HC + NOx (g/cm) | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |

| | |
|---|---|
| **43 HC (g/cm neu g/cWh)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu gall fod ar y dystysgrif IVA/ Addasu Prydain Fawr. |
| **44 NOx (g/cm neu g/cWh)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **45 Pwysau refeniw (cg)** | Nid oes angen ichi roi'r pwysau os yw'r cerbyd yn gar neu'n fan ysgafn, neu os yw'n pwyso 3500cg neu lai. Os yw eich cerbyd yn pwyso mwy na 3500cg, rhowch y pwysau yma ac atodi tystysgrif pwysau. |
| **46 Lefel sain cyflymder injan (isaf-1)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Mae'r cyflymder injan yn golygu'r cyflymder a gymerir y darlleniadau (er enghraifft, 81 (sefydlog) ar 3000 (cyflymdra injan) isaf – 1/70). Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, mae'n rhaid ichi roi'r wybodaeth yma. |
| **47 Lefel sain gyriant (dB(A))** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr neu dystysgrif MSVA. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, mae'n rhaid ichi roi'r wybodaeth yma. |
| **48 Cymhareb pwysau/pŵer (cW/cg)** | Mae hyn yn gymwys i feiciau modur a beiciau tair olwyn yn unig. Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio neu'r dystysgrif MSVA neu cewch chi'r wybodaeth wrth y gwneuthurwr cerbyd. |
| **49 RDE** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **50 Taith RDE gyflawn** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **51 Taith drefol RDE** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **52 AV** | Yn ddewisol, wrth gwblhau mae'n rhaid iddo fod yn 'Y' neu 'N'.<br>Mae'r Ddeddf Cerbydau Awtomataidd a Thrydan (AEVA) 2018 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o gerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain yn ddiogel ac yn gyfreithlon mewn o leiaf rhai amgylchiadau at ddibenion yswiriant.<br>Rhaid i wneuthurwyr wirio cymhwyster statws UK AV cerbyd yn erbyn y rhestr hon cyn darparu'r data hwnnw i DVLA ar gyfer cofrestriad cyntaf.<br>Bydd y rhestr yn cael ei chadw ar wefan CCAV ar GOV.UK: **www.gov.uk/government/organisations/centre-for-connected-and-autonomous-vehicles** |
| **53 Rhif adnabod teulu'r cerbyd** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **54 Ffactor gwyriad** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **55 Ffactor gwirio** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, mae'n rhaid ichi roi'r wybodaeth yma. |
| **56 Màs prawf WLTP (cg)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **57 Defnydd o ynni trydan (Wh/cm)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **58 Ystod WLTP** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **59 Cod/grŵp ar gyfer technoleg arloesol** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |

| | |
|---|---|
| **60 Lleihau allyriadau trwy dechnoleg arloesol (WLTP) (g/cm)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **61 Lleihau allyriadau trwy dechnoleg arloesol (NEDC) (g/cm)** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio. Nid oes angen ichi lenwi'r adran hon os ydych yn darparu tystysgrif IVA/Addasu Prydain Fawr. Serch hynny, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, dylech roi'r wybodaeth yma. |
| **62 Cod ar gyfer y corff** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **63 Dosbarth o hybrid** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **64 Cyflymder uchaf** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **65 Cyfnod cwblhau** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **66 Hash cryptograffig** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir, mae'n rhaid iddo fod yr 8 nod cyntaf). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **67 Gwerth prif lwyth ar gyfartaledd** | Mae'r wybodaeth hon ar y Dystysgrif Cydymffurfio (os y'i dangosir). Os nad oes gennych y wybodaeth hon, gallwch adael yr adran hon yn wag. |
| **68 Cod post rhannol y prynwr** | Rhowch hanner cyntaf y cod post (er enghraifft, SW19) ar gyfer cyfeiriad yr unigolyn a brynodd y cerbyd. Mae'r diwydiant moduron yn defnyddio'r blychau sy'n weddill ar dudalen 1 y ffurflen V55/5 i gynhyrchu ystadegau ac nid oes angen ichi eu llenwi. |

**Bydd angen llenwi'r adrannau canlynol ar dudalen 2 o'r ffurflen V55/5W.**

| | |
|---|---|
| **69 Pris sylfaenol/ pris tybiannol y cerbyd** | Mae'n rhaid ichi ddarparu'r pris sylfaenol/pris tybiannol ar gyfer cerbydau cymeradwyaeth math M1 yn unig. Hwn fydd y pris y diwrnod cyn y dyddiad pan fydd y cerbyd yn cael ei drethu a'i gofrestru. |
| **70 Enw a chyfeiriad** | Rhowch eich enw, cyfeiriad a chod post llawn. |
| **71 Dyddiad geni a manylion cyswllt** | **Dyddiad geni** – Mae'n rhaid ichi roi hwn os yw unigolyn wedi'i enwi fel y ceidwad. Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon, ond ni fydd yn ymddangos ar y dystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log).<br>**Manylion cyswllt** – Rhowch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen inni gysylltu:<br>Rhif ffôn y deliwr neu geidwad cerbyd<br>Cyfeiriad e-bost y deliwr neu geidwad cerbyd |
| **72 A yw'r cerbyd wedi'i eithrio rhag cymeradwyaeth math?** | Os felly, bydd angen ichi roi'r rheswm llawn dros yr eithriad. Er enghraifft, Enduro Bike. |
| **73 Manylion y milltiredd Milltiroedd (nid cilomedrau)** | Rhowch y milltiredd presennol a ddangosir ar y sbidomedr ar adeg cofrestru'r cerbyd. I sicrhau bod y gyfradd gywir o dreth cerbyd yn cael ei rhoi mae'n bwysig bod milltiredd y cerbyd wedi'i gofnodi'n gywir. |
| **74-76** | Ar gyfer cerbydau yn pwyso dros 3500cg yn unig (nid ar gyfer ceir neu faniau ysgafn). Atebwch y cwestiynau lle bo'n briodol. |
| **Datganiad** | Llofnodwch a nodwch y dyddiad ar y datganiad ar waelod y ffurflen gais. |

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi i DVLA Abertawe SA99 1BE. Sicrhewch eich bod yn cynnwys y tâl priodol ar gyfer trethu a chofrestru'r cerbyd, gydag unrhyw ddogfennau a restrir isod i gefnogi eich cais.

## Dogfennau ategol:

- dogfennaeth ddilys yn cadarnhau enw a chyfeiriad ceidwad y cerbyd neu ffurflen Hysbysiad ar gyfer gwirio enw a chyfeiriad (V959) wedi'i llenwi
- y doll sy'n daladwy (lle bo'n briodol)
- Datganiad o hawl i drwyddedu ar y gyfradd nwyddau sylfaenol o doll cerbydau wedi'i gwblhau (Cerbydau Nwyddau Ynysoedd Bychain) (V900) (lle bo'n briodol)
- tystiolaeth briodol o bwysau refeniw/pwysau heb eu llwytho (lle bo'n briodol)
- Tystysgrif Hawl wreiddiol, WPA0442, Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Taliad Anabledd Plentyn (CDP) neu Daliad Anabledd Oedolyn (ADP) (dosbarth treth anabl yn unig)
- Tystysgrif Cymhwyster Gyrru Cychwynnol neu'r cyfwerth (PSV401, 408, 500, 506) lle bo'n briodol (Tystysgrif PSV yng Ngogledd Iwerddon) neu'r Dystysgrif Prawf Cyn Cofrestru (PRI)
- Datganiad am Gerbyd Oddi ar y Ffordd (INF85W) wedi'i lenwi (lle bo'n briodol)
- Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cymuned Ewropeaidd (ECWVTA), Tystysgrif Cydymffurfio Prydain Fawr neu'r Deyrnas Unedig (Gogledd Iwerddon)
- Tystysgrif Addasu Prydain Fawr neu Dystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Beic Modur Unigol (MSVA) (lle bo'n briodol)
- prawf o MOT dilys (mae copïau electronig yn dderbyniol) os yw'r cerbyd dros 3 blwydd oed, neu dros 4 blwydd oed yng Ngogledd Iwerddon
- dogfen neu dystysgrif gofrestru o du allan y DU wreiddiol os yw ar gael
- tystysgrif yswiriant neu sicrwydd yswiriant (derbynnir copïau wedi'u lawrlwytho, ond ni dderbynnir llungopïau) sy'n ddilys ar y dyddiad y bydd y dreth yn dechrau, ar gyfer cerbydau wedi'u cofrestru â chyfeiriad Gogledd Iwerddon.

Gellir talu drwy siec neu archeb bost yn daladwy i DVLA (peidiwch ag anfon arian parod). Dylai'r dogfennau cefnogi fod yn gopïau gwreiddiol, oni bai nodir yn wahanol. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu'u newid. Os ydych yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu'i newid, bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch. Dylai dogfennau sy'n ategu eich cais fod yn rhai gwreiddiol, oni nodir yn wahanol. Ar gyfer cerbydau wedi'u cofrestru â chyfeiriad Gogledd Iwerddon, derbynnir copïau o dystysgrifau yswiriant wedi'u lawrlwytho neu eu ffacsio. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob gyrrwr gael ei yswirio gan yswiriant modur wrth ddefnyddio cerbyd modur ar y ffordd neu mewn unrhyw le cyhoeddus arall. Efallai y bydd rhaid i'ch cerbyd gael ei archwilio. Bydd DVLA yn cysylltu â chi os bydd angen gwneud hwn.

Os bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, bydd DVLA yn gwneud y canlynol:

1) Rhoi rhif cofrestru i'ch cerbyd sy'n addas i'w oed yn seiliedig ar y dystiolaeth rydych yn ei darparu. Os na allwch ddarparu tystiolaeth o oed neu hunaniaeth y cerbyd byddwn yn rhoi rhif cofrestru "Q/QNI".
2) Anfon tystysgrif gofrestru cerbyd V5CW (llyfr log) yn dangos chi fel y ceidwad cofrestredig. Byddwn yn ei hanfon atoch o fewn 4 i 6 wythnos wedi derbyn eich cais. Bydd hyn yn rhoi amser ichi drefnu'r platiau rhif.
3) Dychwelyd eich dogfennau, heblaw am eich dogfen neu dystysgrif gofrestru o du allan y DU wreiddiol. Os hoffech gael eich dogfennau wedi'u dychwelyd drwy 'ddanfoniad arbennig', darperwch amlen danfoniad arbennig rhagdaledig. Ni allwn warantu y caiff eich dogfennau eu dychwelyd erbyn dyddiad neu ddigwyddiad penodol, er enghraifft, gwyliau.

Os nad ydych yn derbyn eich dogfennau yn ôl mae'n rhaid ichi gysylltu â DVLA o fewn 1 mis o'r dyddiad y gwnaethoch eich cais, neu ni fyddwn yn gallu ymchwilio.

Os nad ydych yn derbyn unrhyw rai o'r uchod o fewn yr amser penodedig, ffoniwch **0300 790 6802**, neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**

# Atodiad A

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaeth Cerbydau

# Ffi cofrestru cerbyd am y tro cyntaf

**Ers 1 Ionawr 2004, bydd eisiau ichi dalu ffi wrth gofrestru a threthu cerbyd modur am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Bydd y ffi – £55 ar hyn o bryd, yn cynnwys y costau gweinyddol yn gysylltiedig â chofrestru'r cerbyd am weddill ei oes.**

Bydd y ffi yn gymwys i bob cerbyd heblaw am y rhai a restrir isod:

- cerbydau a gofrestrwyd a threthwyd yn y categori treth 'Eithriad Anabl'
- cerbydau hanesyddol a gofrestrwyd yn flaenorol gyda'r hen Awdurdodau Lleol (trawsnewidiadau hwyr)
- cerbydau mewnforiedig a gofrestrwyd yn flaenorol o dan y Cynllun Allforio Personol a'r Cynllun Modd Newydd o Gludiant
- cerbydau a ddefnyddir gan luoedd ymweld
- cerbydau yn eithriedig gan y Goron
- cerbydau a gofrestrir o dan y Cynllun Allforio Uniongyrchol
- cerbydau oddi ar y ffordd.

Mae cofrestru cerbydau, a chadw'r gofrestr yn gyfredol pan fod cerbydau yn newid perchnogion, yn ddull pwysig yn y frwydr yn erbyn troseddau cerbydau a throseddau eraill ac mae'n o fantais i unigolion yn uniongyrchol. Mae'r ffi yn sicrhau bod mwy o gost y gwasanaeth hwn yn cael ei osod ar y rhai sy'n ei ddefnyddio.

Bydd rhaid ichi dalu'r ffi pan fyddwch yn cofrestru a threthu cerbyd am y tro cyntaf. Bydd hefyd eisiau ichi dalu'r Dreth Doll Cerbydau (VED) a'r ardoll defnyddwyr ffyrdd HGV, lle bo'n briodol. Bydd hyn yn un taliad a wneir ar gyfer cerbydau a gofrestrir a threthir am y tro cyntaf naill ai yn DVLA neu o dan gwasanaeth Cofrestru Cerbyd (RaV).

**O.N. Mae Cyllid a Thollau EM wedi ei hysbysu nad yw'r ffi yn cynnwys TAW.**

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau.**

**gov.uk/dvla**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF54/1W
3/21